# Archwiliad CDLI Caerdydd – Pwyntiau Gweithredu

| Niferoedd Tai | Cam Gweithredu | Erbyn |
|---|---|---|
| HS1.1 | Y Cyngor i ddarparu'r dystiolaeth ynghylch ffigurau ymfudo rhyngwladol a baratowyd gan Edge a ddyfynnwyd ar ddechrau'r Gwrandawiad. | Wedi gwneud |
| HS1.2 | Y Cyngor i esbonio pam mae 3 blynedd diwethaf y Llwybr Tai (Atodiad 7) yn dangos ffigurau negyddol a rhoi sylwadau ar yr hyn y mae'n ei olygu i darged tai y CDLI. | 30/9/26 |
| HS1.3 | Y Cyngor i ddarparu manylion ei raglen darpariaeth tai fforddiadwy, gan gynnwys safleoedd posibl a nifer y tai lle gellir rhannu'r wybodaeth hon. Gweler HS3.1. | 30/9/26 |
| HS1.4 | Cyngor i nodi pryd y bydd AFDL 2026 yn cael ei gyhoeddi. | Wedi gwneud. Ddim yn debygol tan 2027 |
| HS1.5 | Y Cyngor i gomisiynu Edge i ymgymryd â senario amcanestyniad tai ychwanegol ar gyfer y grŵp oedran 18 i 30. Darparwyd rhagor o fanylion gan Mr Williams (Barratt Redrow Homes, 77). | 30/9/26 |
| HS1.6 | Cyngor i nodi pa CDLI yng Nghymru sydd â chyfradd hyblygrwydd o 5%. | 30/9/26 |
| HS1.7 | Y Cyngor i ddarparu data darpariaeth tai a anfonwyd at Mr Williams (Barratt Redrow Homes, 77). Ar gyfer 2024 a 2025. | Wedi gwneud ond gweler HS2.1. |
| **Strategaeth** | **Cam Gweithredu** | **Erbyn** |
| HS2.1 | Y Cyngor i adolygu'r tablau a ddarparwyd dan HS1.7 i ystyried y cyfrif dwbl a gydnabuwyd ar gyfer Plasdŵr. Gwirio nad yw hynny wedi digwydd ar gyfer safleoedd eraill a chywiro yn ôl yr angen. | 30/9/26 |
| HS2.2 | Er mwyn cefnogi safbwynt y Cyngor ar safleoedd annisgwyl, y Cyngor i gynnal astudiaeth capasiti trefol i nodi'r safleoedd gwag/heb eu defnyddio'n ddigonol a'r safleoedd ar brif lwybrau a nodau trafnidiaeth gyhoeddus y cyfeiriodd y Cyngor atynt yn y Gwrandawiad.<br>Nodi perchnogaeth ac unrhyw gyfyngiadau i gyflawni. | 30/9/26 |
| HS2.3 | Y Cyngor i ddarparu manylion y broses asesu sy'n cefnogi'r niferoedd a briodolwyd i safleoedd a ddyrannwyd. Gan gynnwys;<br>• cefnogi'r safbwynt bod H2.1, H2.5, H2.6 a H2.7. yn addas i'w datblygu mewn egwyddor a gallant ddarparu'r niferoedd a briodolwyd iddynt heb niwed | 30/9/26 |

| | | |
|---|---|---|
| | i Ardal Gwarchodaeth Arbennig/safle Ramsar Aber Afon Hafren,<br>• sylwadau CNC ar SH1.2 a SH1.4 yn ei ymateb i Sesiwn Gwrandawiad 8<br>• perchnogaeth a chyfyngiadau safle (siâp) y dyraniad llai ym Mhorth Teigr/Alexander Head (niferoedd a chyflawni fesul cam/amseriad y cyflawni)<br>• adolygu Heol Hadfield i ystyried yr arwynebedd llai sydd ar gael ar gyfer tai o ganlyniad i ddefnydd masnachol ar ffrynt y ffordd (1ha) ac yng ngoleuni sylwadau perchennog y safle y gallai cadw defnyddiau masnachol/cyflogaeth rwystro cyflawni,<br>• adolygu egwyddor a nifer yr unedau a briodolwyd i Dir yn ardaloedd 9-12 Llaneirwg i ystyried eu bod yn rhannol mewn SoDdGA a bod 2/3 ohonynt mewn SoBCN a'r rhagdybiaethau yn Rhaglen Dai y Cyngor,<br>• adolygu'r holl safleoedd a ddyrannwyd sydd wedi'u cynnwys yn Rhaglen Dai y Cyngor a diweddaru llwybrau 2024 a 2025 os oes angen,<br>• diweddaru Papur Cefndir Tai, Ffigur 11.<br>• darparu uwchgynlluniau ar gyfer safleoedd lle maent ar gael, gan esbonio, lle maent yn rhagflaenu'r gofynion diweddaraf, i ba raddau y maent yn cefnogi’r niferoedd tai.<br>• Y Cyngor i ddarparu gwybodaeth am waith adfer yn Heol y Fferi a'r gwaith paratoi'r safle a wnaed hyd yma. | |
| HS2.4 | Y Cyngor i gomisiynu diweddariad o adroddiad Avison Young. Adolygiad i gynnwys:<br>• Amcangyfrif o gostau cyfrannu at gyflawni RhMMS/MGNAA,<br>• Dadansoddiad penodol o ddwyn ymlaen safleoedd adfywio tir llwyd,<br>• Diweddaru cyfeiriad at bolisïau i adlewyrchu'r Cynllun ar Adnau<br>• Asesu'r holl bolisïau sy'n effeithio ar hyfywedd naill ai o ganlyniad i ddarparu seilwaith/gwasanaethau ac sy'n effeithio ar ardaloedd datblygu. SP3, SP4, SP5, SP6, SP12, SP13, SP15, SP20, SP21, H3, C3, C4, HF1, HF2, HF3, WL1,BG4, BG5, BG7, T2, T7, OS2, P1, RE2, W1.<br>**Darperir y rhestr hon er cyflawnder. Rydym yn cydnabod y bydd gorgyffwrdd rhwng polisïau SP a'r polisïau DM atodol sy'n deillio ohonynt.** | 30/9/26 |
| HS2.5 | Y Cyngor i ddarparu strategaeth ddrafft ar gyfer cyflawni RhMMS a MGNAA, gan nodi a rhoi tystiolaeth | 30/9/26 |

| | | |
|---|---|---|
| | dros gost ac atebion tebygol. Dylai amcangyfrifon cost lywio'r astudiaeth hyfywedd wedi'i diweddaru. | |
| HS2.6 | Y Cyngor i adolygu ei Astudiaeth Gyflogaeth a darparu tystiolaeth nad oes angen Gorllewin Porth Caerdydd mwyach i ddarparu tir/gofod llawr cyflogaeth. | 30/9/26 |
| HS2.7 | Y Cyngor i adolygu, gwirio a diweddaru llwybrau tai 2024 a 2025 (fel HS2.1) | 30/9/26 |
| HS2.8 | Cyngor i ddarparu mapiau ACLIS. | Wedi gwneud |
| **Tai Fforddiadwy** | **Cam Gweithredu** | **Erbyn** |
| HS3.1 | Y Cyngor i adolygu'r tabl Rhaglen Dai i nodi pa safleoedd sy'n cael eu dyrannu yn y CDLIN, y rhai sydd wedi'u cwblhau a'r rhai sydd wrthi'n cael eu hadeiladu. | 30/9/26 |
| HS3.2 | **Newid yn y Materion sy'n Codi**; Dylid dileu paragraff 7.15 a mewnosod y testun awgrymedig canlynol ym Mholisi H3, 'Bydd y Cyngor yn ceisio darparu amrywiaeth a chymysgedd o dai fforddiadwy cynaliadwy, yn unol â Pholisi SP12' | Gweler HS0.2 |
| **Sipsiwn a Theithwyr** | **Cam Gweithredu** | **Erbyn** |
| HS4.1 | Y Cyngor i ddarparu manylion am:<br>i. waith gan Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru ar ddarpariaeth trafnidiaeth yn y rhanbarth;<br>ii. datganiad gan Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru yn cadarnhau a fyddai'r dull rhanbarthol o ddarparu trafnidiaeth sy'n cael ei ystyried yn cefnogi diwallu'r angen a nodwyd yng Nghaerdydd ar sail ranbarthol ehangach. | 30/9/26 |
| HS4.2 | Y Cyngor i egluro a fydd y safle arfaethedig yn Lawnt Pengam yn barhaol neu dros dro.<br>i. Os yw dros dro, bydd y Cyngor yn cynhyrchu papur ar a yw darparu llety dros dro yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb.<br>ii. Os yw dros dro, mae'r Cyngor yn nodi sut y bydd llety parhaol yn cael ei sicrhau.<br>iii. Y Cyngor i gadarnhau bod cyllid yn parhau i fod ar gael, gan gynnwys ar gyfer darpariaeth dros dro. | 30/9/26 |
| **Y Gymraeg** | **Cam Gweithredu** | **Erbyn** |
| HS5.1 | Y Cyngor i adolygu SP15<br>• Diwygio'r frawddeg "mae'r CDLI yn cefnogi cynigion datblygu sy'n ceisio diogelu......' i nodi gofyniad polisi cliriach | 30/9/26 |

| | | |
|---|---|---|
| | • Nid yw 'lle bo hynny'n briodol.........' yn ddigon fanwl ac mae angen ei ddiwygio i ddarparu sbardun cliriach<br>• Mae angen cryfhau'r frawddeg 'buddion y Gymraeg........' . Ystyried pa mor briodol yw'r frawddeg 'hyfywedd, bywiogrwydd a defnydd o'r iaith....' yng nghyd-destun polisi cenedlaethol.<br>• Brawddeg olaf i'w diwygio. Fel y drafftiwyd, gallai cryfhau effaith gadarnhaol rhywfaint fod yn fwy na niwed sylweddol. Dileu 'a/neu' lle mae'n ymddangos, gan gyflwyno cymalau ychwanegol os oes angen. | |
| HS5.2 | Y Cyngor i baratoi a chyflwyno Canllawiau Cynllunio Atodol drafft ar y Gymraeg. | 30/9/26 |
| HS5.3 | **Newid mewn Materion sy'n Codi;** Trydydd paragraff ym mharagraff 7.231 - cyfeiriad at 50% i'w ail-leoli i Bolisi C4 ei hun. | Gweler HS0.2 |
| **Cyflogaeth** | **Cam Gweithredu** | **Erbyn** |
| HS6.1 | Y Cyngor i roi diweddariad ffeithiol ar Dir i'r de o Barc Busnes Llaneirwg<br>• Diweddariad ar gyllid a chymorth posibl gan Lywodraeth Cymru<br>• Amseru tebygol ceisiadau cynllunio yn y dyfodol<br>• Dyddiad dechrau tebygol ar gyfer datblygu'r safle<br>• Nifer y swyddi sy'n debygol o gael eu creu fesul blwyddyn | 30/9/26 |
| HS6.2 | **Newid mewn Materion sy'n Codi**; Dileu polisi EC2 a pharagraffau 7.83 i 7.88. | Gweler HS0.2 |
| HS6.3 | Y Cyngor i ystyried sut a ble yn y CDLIN y gall fynegi ei gefnogaeth i gyfranogiad cymunedol a chreu lleoedd ar gamau o uwchgynllunio a datblygu safle Llaneirwg yn y dyfodol. | Gweler HS0.2 |
| HS6.4 | Y Cyngor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y nifer o safleoedd cyflogaeth sydd wedi'u cymryd ar ôl astudiaeth HJA. | 30/9/26 |
| HS6.5 | Cyngor i adolygu Polisi EC5<br>• EC5A<br>- Mynd i'r afael â'r tensiwn sy'n gynhenid rhwng EC3 ac EC5A o ystyried nad yw'n glir sut y gall y Cyngor fel gwneuthurwr penderfyniadau ystyried bod safleoedd EC3 yn gwbl addas i'w defnyddio ar gyfer cyflogaeth ac yn angenrheidiol i gyflawni nodau strategol ehangach, ac o bosibl yn ddiangen ac yn anaddas ar gyfer defnydd cyflogaeth.<br>- Yn hytrach na diangen / anaddas, ystyried a yw'r prawf yn deillio o golli safle yn erbyn y strategaeth tir cyflogaeth ehangach | 30/9/26 |

| | | |
|---|---|---|
| | - Ystyried a ddylai polisi wahaniaethu rhwng darpariaeth swyddfa/parc busnes a safleoedd diwydiannol/warws<br>- Dileu pob enghraifft o 'a/neu', gan gyflwyno cymalau ychwanegol os oes angen.<br>- Os dylid ei gadw, diffinio beth mae ddim yn 'ffisegol addas' yn ei olygu yng nghyd-destun polisi EC3 sy'n ystyried bod y safleoedd yn addas.<br>• EC5B<br>- Y Cyngor i gynnwys testun ynghylch marchnata o ddatganiad gwrandawiad | |
| HS6.6 | Cyngor i adolygu Polisi EC6<br>• Mynd i'r afael â'r tensiwn rhwng yr angen i ddangos nad oes angen llety swyddfa (i) a'r gofyniad i'w ddarparu (ii).<br>• Ystyried a ellir esbonio'r ymadrodd 'fformat cyfredol' yn gliriach<br>• Egluro cyfeiriad at breswyl yn (ii) er mwyn gwneud yn gliriach yr hyn a fwriadwyd<br>• Profi'r polisi wedi'i ailddrafftio i sicrhau ei fod yn darparu'r amddiffyniad a fwriadwyd i lety swyddfa. Fel y drafftiwyd o bosibl ni fyddai angen darparu elfen o ddefnydd swyddfa.<br>• Ailddrafftio i ddileu 'a/neu' gan gyflwyno cymalau ychwanegol os oes angen | 30/9/26 |
| HS6.7 | Yng ngoleuni'r newidiadau i bolisïau sy'n deillio o HS6.5 a HS6.6, y Cyngor i adolygu'r holl bolisïau eraill sy'n gysylltiedig â chyflogaeth i sicrhau bod iaith, ymadroddion a dull gweithredu yn gyson ar draws polisïau cysylltiedig. | 30/9/26 |
| **Manwerthu** | **Cam Gweithredu** | **Erbyn** |
| HS7.1 | Y Cyngor i adolygu geiriad, strwythur, diffiniad gofodol, a meini prawf y polisïau canlynol, a gwneud diwygiadau priodol i'r polisïau canlynol. Yn ei adolygiad, bydd y Cyngor yn sicrhau bod y berthynas rhwng gwahanol feini prawf (cronnus, annibynnol), y pwysoli i'w gymhwyso i feini prawf unigol (hierarchaeth polisi), ac a yw'r meini prawf yn berthnasol ym mhob achos neu'n gymwys yn ddetholus mewn gwahanol achosion, i gyd wedi'u diffinio'n glir.<br>• Polisïau: -<br>- SP8<br>- R2<br>- R3<br>- R4<br>- R5<br>- R9 | 30/9/26 |

| | | |
|---|---|---|
| | • Mae'r adolygiad i nodi'n glir sut mae'r newidiadau a awgrymwyd yn y ddogfen Ymateb i Gwestiynau Arolygwyr (ID04) ac yn natganiadau'r sesiwn wrandawiad wedi cael sylw. | |
| HS7.2 | Yng ngoleuni'r newidiadau i bolisïau sy'n deillio o HS7.1, y Cyngor i adolygu'r holl bolisïau eraill sy'n gysylltiedig â chyflogaeth i sicrhau bod iaith, ymadroddion a dull gweithredu yn gyson ar draws polisïau cysylltiedig. | 30/9/26 |
| HS7.3 | Cyngor i wirio terminoleg Polisi Cynllunio Cymru ar draws adrannau'r CDLIN sy'n gysylltiedig â manwerthu. | 30/9/26 |
| **Yr Amgylchedd Naturiol** | **Cam Gweithredu** | **Erbyn** |
| HS8.1 | Cyngor i ddrafftio Polisi SPXX newydd i ymgorffori dull fesul cam a sicrhau bod CDLl yn gyffredinol yn unol â pholisi cenedlaethol.<br>Awgrymu mai BG4 yw'r sylfaen ar gyfer hyn, wedi'i ddyrchafu i bolisi strategol. | 30/9/26 |
| HS8.2 | Y Cyngor i adolygu ac ailddrafftio SP3, SP4, SP21, BG1, NG2, BG3, BG5 a BG6 i alinio â'r Polisi SPXX newydd a'i ategu.<br>SPXX i nodi'n raddol fesul cam, ac eithrio SoDdGAau (BG1), y polisïau BG i nodi lle y dangoswyd nad oes safleoedd amgen ar gyfer y datblygiad arfaethedig ac nad yw'n bosibl osgoi, rhaid i'r datblygiad ddangos ei fod wedi lleihau, lliniaru neu ddigolledu fel y bo'n briodol.<br>i. Ar gyfer SP3 a SP4, sicrhau bod dull fesul cam yn dylanwadu ar uwchgynllunio a dylunio o'r dechrau,<br>ii. Diwygio Polisi BG1 i adlewyrchu polisi cenedlaethol. Dim ond mewn amgylchiadau cwbl eithriadol y dylid caniatáu datblygiad nad yw'n angenrheidiol ar gyfer rheoli SoDdGA.<br>iii. Y diwygiad i BG5 i gynnwys y frawddeg ychwanegol (olaf) a ychwanegwyd gan y Cyngor yn y datganiad Gwrandawiad.<br>iv. Diwygio 7.376 a 7.377 fel yr awgrymwyd gan y Cyngor yn y datganiad Gwrandawiad.<br>v. Diwygio Polisi BG6 i nodi lle nad oes dewisiadau amgen ac nad yw'n bosibl osgoi, mae angen lliniaru a gwella er mwyn cyflawni budd cyhoeddus. | 30/9/26 |
| HS8.3 | Dileu brawddeg olaf 7.364. | Gweler HS0.2 |
| **Materion Tai Eraill** | **Cam Gweithredu** | **Erbyn** |

| | | |
|---|---|---|
| HS9.1 | Diwygio SP3 a/neu SP4 i gynnwys cyfeiriad at sicrhau cartrefi gydol oes/tai anghenion arbenigol lle nodir angen amdanynt. | Gweler HS0.2 |
| HS9.2 | Diwygio Polisi H5(iv) i gynnwys diogelwch fel ystyriaeth. | Gweler HS0.2 |
| HS9.3 | Diwygio Polisi CP2<br>i. Creu 3 pholisi, Trosi, Estyniad, Amnewid.<br>ii. Cynnwys y nod o geisio defnydd cyflogaeth yn gyntaf ar gyfer trosi (7.322) yn y polisi.<br>iii. Cynnwys cyngor ar farchnata yn y cyfiawnhad rhesymol (yn unol ag ymatebion y Cyngor yn ID04)<br>iv. Diwygio CP2(a), 'Rhaid i'r adeilad a gynigiwyd i'w drosi:<br>v. Diwygio CP2(a)(iii), 'Rhaid i'r defnydd arfaethedig beidio arwain at adeiladau ychwanegol'<br>vi. Dileu CP2(a)(iv)<br>vii. Awgrymu dileu'r paragraff olaf, mae meini prawf sy'n anelu at gyflawni dyluniad da wedi'u cynnwys ym mhob adran ac yn SP3, SP3(xiii) yn benodol. | Gweler HS0.2 |
| HS9.4 | Dileu 'cegin, ardal fwyta yn ogystal ag amwynder cymunedol' o Bolisi H6(iv). | Gweler HS0.2 |
| HS9.5 | Dileu 'Gall gwasanaethau nodweddiadol gynnwys glanhau ystafelloedd, dillad gwely, campfa ar y safle a gwasanaeth porthor, nid yw'r un o'r rhain yn ddarpariaeth ddomestig nodweddiadol.' O baragraff 7.48.<br>Dileu 'megis gwasanaeth glanhau, darparu dillad gwely a phorthor' o baragraff 7.49. | Gweler HS0.2 |
| **Llifogydd** | **Cam Gweithredu** | **Erbyn** |
| HS10.1 | Diwygio Polisi W3 i gynnwys rhagdybiaeth yn erbyn gosod cwlfertau. | Gweler HS0.2 |
| HS10.2 | Y Cyngor i ddarparu'r strategaeth ddraenio a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru | 30/9/26 |
| HS10.3 | CNC i ddarparu copi o'i ddatganiad sefyllfa ar osod cwlfertau dros brif afonydd. | Wedi gwneud |
| HS10.4 | Cyfeiriadau at TAN i newid i'r fersiwn gyfredol. | Gweler HS0.2 |
| **Treftadaeth** | **Cam Gweithredu** | **Erbyn** |
| HS11.1 | Diwygio Polisi HE1;<br>'1. ~~Disgwylir~~ Bydd rhaid i ddatblygiad sy'n cael effaith ar ~~ased treftadaeth~~ asedau treftadaeth dynodedig neu adeiladau rhestredig lleol gadw neu wella ei arwyddocâd a/neu ei osodiad, a gwneud cyfraniad cadarnhaol i'w gymeriad neu ei ymddangosiad.'<br>'2. Bydd gofyn i geisiadau sy'n effeithio ar arwyddocâd unrhyw ased treftadaeth dynodedig ddarparu digon o wybodaeth i ddangos sut y byddai cynigion yn cyfrannu at gadwraeth yr ased. Bydd hyn yn cael ei nodi mewn | Gweler HS0.2 |

| | | |
|---|---|---|
| | Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth, yn dilyn canllawiau arfer gorau Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Cadw.'<br>‘3. Bydd pwysau sylweddol yn cael ei roi i gadwraeth asedau treftadaeth <u>dynodedig</u> ac <u>adeiladau rhestredig lleol</u> y ddinas. Rhaid cyfiawnhau unrhyw niwed i arwyddocâd ~~ased treftadaeth dynodedig neu~~ <u>adeilad rhestredig lleol</u>. Bydd cynigion yn cael eu pwyso yn erbyn buddion cyhoeddus y cynnig: p'un a ddangoswyd y gwnaed pob ymdrech resymol i gynnal y defnydd presennol, dod o hyd i ddefnyddiau newydd, neu liniaru maint y niwed i arwyddocâd yr ased, ac a yw'r gwaith a gynigir yr isafswm sydd ei angen i sicrhau defnydd buddiol hirdymor o'r ased.<br>‘5. Caniateir datblygiad o fewn neu’n agos at ardal gadwraeth dim ond os bydd yn gwarchod neu'n gwella cymeriad ~~ac~~ <u>neu</u> ymddangosiad yr ardal gadwraeth, neu ei osodiad.’ | |
| HS11.2 | Newid Polisi EN9 i Bolisi HE1 ym mharagraff 7.257 | Gweler HS0.2 |
| **Treftadaeth** | **Cam Gweithredu** | **Erbyn** |
| HS11.1 | Diwygio Polisi HE1;<br>‘1. ~~Disgwylir~~ <u>Bydd rhaid</u> i ddatblygiad sy'n cael effaith ar ~~ased treftadaeth~~ <u>asedau treftadaeth dynodedig neu adeiladau rhestredig lleol</u> gadw neu wella ei arwyddocâd a/neu ei osodiad, a gwneud cyfraniad cadarnhaol i'w gymeriad neu ei ymddangosiad.’<br>‘2. Bydd gofyn i geisiadau sy'n effeithio ar arwyddocâd unrhyw ased treftadaeth <u>dynodedig</u> ddarparu digon o wybodaeth i ddangos sut y byddai cynigion yn cyfrannu at gadwraeth yr ased. Bydd hyn yn cael ei nodi mewn Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth, yn dilyn canllawiau arfer gorau Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Cadw.’<br>.<br>‘3. Bydd pwysau sylweddol yn cael ei roi i gadwraeth asedau treftadaeth <u>dynodedig</u> ac <u>adeiladau rhestredig lleol</u> y ddinas. Rhaid cyfiawnhau unrhyw niwed i arwyddocâd ~~ased treftadaeth dynodedig neu~~ <u>adeilad rhestredig lleol</u>. Bydd cynigion yn cael eu pwyso yn erbyn buddion cyhoeddus y cynnig: p'un a ddangoswyd y gwnaed pob ymdrech resymol i gynnal y defnydd presennol, dod o hyd i ddefnyddiau newydd, neu liniaru maint y niwed i arwyddocâd yr ased, ac a yw'r gwaith a gynigir yr isafswm sydd ei angen i sicrhau defnydd buddiol hirdymor o'r ased.<br>‘5. Caniateir datblygiad o fewn neu’n agos at ardal gadwraeth dim ond os bydd yn gwarchod neu'n gwella cymeriad ~~ac~~ <u>neu</u> ymddangosiad yr ardal gadwraeth, neu ei osodiad. Pob datblygiad.....’ | Gweler HS0.2 |

| | | |
|---|---|---|
| HS11.2 | Newid Polisi EN9 i Bolisi HE1 ym mharagraff 7.257 | Gweler HS0.2 |
| **Trafnidiaeth** | | |
| H12.1 | Y Cyngor i ystyried Polisi T1 er mwyn sicrhau ei fod yn nodi'n glir yr hyn sy'n ofynnol a'r sail y byddai cynlluniau'n cael eu hystyried yn ei erbyn. Dylid profi'r polisi diwygiedig i sicrhau ei bod yn glir y byddai cynigion sy'n groes i'w amcanion yn cael eu gwrthod. Adolygiad i gynnwys: -<br>- Newid '*bydd y Cyngor yn cefnogi datblygiadau sy'n ymgorffori:*' am eiriad cryfach i egluro beth y mae'n rhaid / y dylai cynigion ei wneud, ac o ganlyniad, beth fyddai effaith methu â bodloni meini prawf unigol;<br>- Maen prawf vii – penderfynu a yw 'integreiddio' a 'presennol' yn ddigon clir a phriodol.<br>- Meini prawf ii a v – gwirio gorgyffwrdd<br>- Ar draws y polisi – cyfeirio at strategaethau a Gorchmynion penodol LlC a Phapurau Gwyn y Cyngor, i ystyried a oes angen nodi'r rhain o ystyried y gallent newid dros oes y cynllun ac ystyried a fyddai geiriad amgen sy'n nodi pwysigrwydd polisi a strategaethau allweddol yn fwy priodol heb nodi eitemau unigol. | 30/9/26 |
| H12.2 | Y Cyngor i adolygu testun ategol Polisi SP19, gyda chyfeiriad penodol at baragraff 6.154 a'r cyfeiriad at gapasiti ychwanegol ar gyfer mynediad ar y ffordd. Wrth adolygu'r testun ategol, dylai'r Cyngor fanteisio ar y cyfle i ddiweddaru disgrifiad a phwrpas cynllun Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae yn unol â'r sefyllfa ddiweddaraf. | 30/9/26 |
| H12.3 | Y Cyngor i ystyried nodi'r gorsafoedd newydd a nodwyd ym Mhapur Gwyn Caerdydd a chynllun y Metro ar y map cynigion, gan gysylltu'r rhain yn glir â gorsafoedd a nodir o fewn Polisi CDLl (T3 neu T6 yn fwyaf tebygol), ac esboniad o fewn y polisi o sut y byddai cynigion datblygu sydd â'r potensial i effeithio ar ddarparu gorsafoedd yn y dyfodol yn cael eu hasesu. Dylai'r ystyriaeth gynnwys sut y gellid nodi/diffinio'r safleoedd ar y map cynigion ar sail eu statws presennol a'r wybodaeth gyhoeddus sy'n eu cefnogi. Nodir nad yw rhai gorsafoedd wedi'u diffinio'n glir eto ac na ellir nodi lleoliadau union. Os daw'r Cyngor i'r casgliad nad yw'n bosibl nodi'r safleoedd ar y map cynigion (gan gynnwys drwy symbol neu ddull arall) sy'n gysylltiedig â fframwaith polisi clir, dylent ysgrifennu at yr Arolygwyr yn egluro pam. | 30/9/26 |
| **Mwynau a Gwastraff** | **Cam Gweithredu** | **Erbyn** |

| | | |
|---|---|---|
| H13.1 | Y Cyngor i adolygu Polisïau MW2, MW5, MW7 a MW8:-<br><br>MW2<br>- Ai bwriad y polisi yw y byddai cynigion yn dderbyniol pe baent yn bodloni i, ii neu iii?<br>- A fyddai cynnig a fethodd yn erbyn e.e. ii a iii yn dderbyniol pe bai'n bodloni i?<br>- A yw iv i fod i fod yn faen prawf neu a yw'n baragraff o destun polisi a fyddai'n berthnasol ym mhob achos?<br>- Beth yw'r dull prawf dilyniannol y cyfeirir ato ym mharagraff 7.539? A yw'r meini prawf yn ddilyniannol? A yw'r prawf dilyniannol yn dyfnhau dros estyniad ochrol?<br>- Ar ôl ystyried y cwestiynau hyn, gwneud ddiwygiadau priodol i MW2 yn ôl yr angen.<br>MW5<br>- Dylid adolygu’r geiriad “Wrth lunio cynigion adfer, caiff gweithredwyr mwynau eu hannog i:” a'i gryfhau gyda geiriad cryfach i egluro beth y mae’n rhaid / y dylai cynigion ei wneud, ac o ganlyniad, beth fyddai effaith methu â bodloni meini prawf unigol.<br>- Gellir cryfhau'r geiriad “cynhwysir cynigion cadarn” i roi gofyniad cliriach.<br>- Y Cyngor i ystyried mathau, graddau a chynnydd gwahanol y gwaith adfer ar safleoedd gwahanol, ac a oes angen i bolisi neu destun ategol gyfeirio at y ffaith y bydd angen gwahanol fathau o adferiad graddol ar wahanol safleoedd, ac os felly, awgrymu gwelliannau addas i'r polisi/testun.<br>- Dylid ystyried a yw maen prawf iv i fod i fod yn faen prawf neu'n baragraff o destun polisi.<br>MW7<br>- Y Cyngor i adolygu'r ‘neu’ ar ddiwedd meini prawf i, ii a iii.<br>- A all bodloni unrhyw faen prawf unigol olygu bod cynllun yn dderbyniol? Cyngor i gadarnhau.<br>MW8<br>- Y Cyngor i ystyried a oes angen ‘neu’ ar ddiwedd maen prawf i, ac o ganlyniad, yr ‘a’ ar ddiwedd maen prawf ii.<br>- Gellir cryfhau'r geiriad “anogir yn gyffredinol” yn y paragraff olaf i roi cyfarwyddyd cliriach. | 30/9/26 |
| H13.2 | Mae Pwynt Gweithredu HS6.4 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y nifer o safleoedd cyflogaeth sydd wedi’u cymryd ar ôl yr | 30/9/26 |

| | | |
|---|---|---|
| | astudiaeth HJA. Fel rhan o'r pwynt gweithredu hwn, dylai'r Cyngor gynnwys gwybodaeth am ba safleoedd sydd wedi symud o ddefnydd cyflogaeth i ddefnydd gwastraff ar ôl yr astudiaeth HJA. | |
| **Dylunio a Materion Eraill** | **Cam Gweithredu** | **Erbyn** |
| H14.1 | Yn unol ag ymateb y Cyngor yn ID04, dylai'r Cyngor adolygu Polisïau SP3 ac SP4. Adolygiad i ystyried:-<br>- Gwneud y ddau bolisi yn fyrrach;<br>- Sut gall y ddau ganolbwyntio mwy ar faterion a gofynion allweddol;<br>- Sut y gellir cryfhau iaith polisi gyda geiriad cryfach i egluro beth y mae'n rhaid / y dylai cynigion ei wneud, ac o ganlyniad, beth fyddai effaith methu â bodloni meini prawf unigol;<br>- Sut y gall ymgysylltu â'r gymuned fod yn ofyniad cliriach a phenodol yn y dull uwch-gynllunio yn SP3, ac yn elfen allweddol o gyflawni dylunio da yn SP4; a<br>- Sut y gall testun a dynnir o bolisïau gael ei ail-leoli fel testun ategol lle bo angen ac yn briodol.<br>Y Cyngor fydd yn penderfynu a ydynt yn dymuno trafod newidiadau gyda phartïon â diddordeb ac nid yw hyn yn ofyniad sy'n deillio o'r pwynt gweithredu hwn. | 30/9/26 |
| H14.2 | Yn unol ag ymateb y Cyngor yn ID04, dylai'r Cyngor adolygu Polisi D1. Adolygiad i ystyried:-<br>- **Fframwaith gofodol** sy'n nodi'n gliriach ble y gellir cefnogi adeiladau tal (gallai fframwaith o'r fath, er enghraifft, nodi ble y bydd adeiladau tal yn cael eu hannog, ble y gallent o bosibl fod yn dderbyniol, a ble y byddent yn annerbyniol).<br>- Diffiniad cliriach o **uchder** y tu allan i ganol y ddinas a'r Bae.<br>- Yr **iaith** a ddefnyddir a'i heffeithiolrwydd wrth wneud penderfyniadau (e.e. silwét cain yn erbyn yr awyr).<br>- Sut y dylid asesu **capasiti seilwaith** wrth benderfynu ar gynigion adeiladau tal (gan gynnwys, er enghraifft, priffyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus, iechyd, addysg, carthffosiaeth). | 30/9/26 |
| H14.3 | Y Cyngor i adolygu Polisïau OS1 ac OS2.<br>- Egluro a yw polisïau yn gofyn am amnewidiad tebyg am debyg neu well, ac os felly, nodi hyn yn glir.<br>- Egluro a yw polisïau yn ei gwneud yn ofynnol darparu man agored digolledu o fewn neu wrth ymyl yr ardal y mae'n cael ei golli ohoni, ac os felly, nodi hyn yn glir. | 30/9/26 |

| | | |
|---|---|---|
| | - Mae'r Cyngor wedi dweud bod y *'Cynllun yn sicrhau ansawdd drwy fynnu bod mannau agored newydd yn bodloni'r meini prawf swyddogaethol, dylunio a defnyddioldeb a nodir ym mholisïau creu lleoedd, seilwaith gwyrdd ac iechyd a lles y Cynllun'* a bod y *'polisïau hyn gyda'i gilydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth ddigolledu yn ddiogel, yn ddeniadol, yn amlswyddogaethol, ac yn gallu darparu'r un manteision hamdden ac amgylcheddol â'r man sy'n cael ei golli, neu rai gwell.'* Nid yw'n glir pam mae'r Cyngor wedi dewis mabwysiadu dull cynllun cyfan mewn perthynas â mannau agored o ystyried bod llawer o bolisïau eraill yn hunangynhwysol a bod ganddynt nifer o feini prawf sy'n nodi gofynion. Os yw cyflawni gofynion mannau agored yn dibynnu ar gymhwyso nifer o bolisïau, mae angen gwneud hyn yn gliriach. Fel arall, dylid diwygio polisïau mannau agored i nodi'n gliriach yr hyn sydd ei angen i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi. | |
| H14.4 | Y Cyngor i adolygu Polisi SP7:-<br>- Mae Datganiad Sesiwn Gwrandawiad y Cyngor yn argymell newidiadau i derminoleg a chanllawiau ar Gynlluniau Bro. Dylid gwneud y newidiadau hyn.<br>- Mae'r Cyngor wedi nodi bod 'Cynlluniau Creu Lleoedd' yn cael eu paratoi gan y Cyngor, a bod y rhain yn wahanol i Gynlluniau Bro. Mae'r berthynas rhwng y ddau gynllun hyn i'r Cyngor ei diffinio. Mae'n bwysig bod diwygiadau i Bolisi SP7 yn egluro pa fath o gynllun y mae'r polisi'n ei gefnogi a pha fath o gynllun y mae'n ei ystyried yn addas fel CCA. Dealltwriaeth yr Arolygwyr, yn seiliedig ar Ddatganiad Sesiwn Gwrandawiad y Cyngor, yw mai Cynlluniau Bro yw ffocws Polisi SP7.<br>- Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn esbonio rôl a phwrpas Cynlluniau Bro ac yn cefnogi eu paratoi. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn dweud y gall Cynlluniau Bro *'lywio'r adolygiad CDLl, gael eu paratoi ochr yn ochr â CDLl, neu ar ôl ei fabwysiadu, cyn belled â bod 'bachyn polisi' digonol yn y cynllun'* ac y gallant *'gael eu cynhyrchu gan Gynghorau Tref a/neu Gymuned, neu'r ACLl ar y cyd â chymunedau lleol.'*<br>- Dylai'r adolygiad o Bolisi SP7:-<br>    o Sicrhau cysondeb â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol mewn perthynas | 30/9/26 |

| | | |
|---|---|---|
| | â'r rôl, y diben a'r derminoleg sy'n gysylltiedig â *Chynlluniau Bro*, gan gynnwys canllawiau perthnasol a gynhwysir yn PCC a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu.<br>o Diffinio'n glir y berthynas rhwng unrhyw *Gynlluniau Creu Lleoedd* dan arweiniad y Cyngor a *Chynlluniau Bro* dan arweiniad y gymuned, gan gynnwys gwahaniaethu rhwng eu pwrpas, eu statws a'u rôl arfaethedig o fewn y fframwaith cynllunio ehangach.<br>o Egluro pa fath o gynllun y bwriedir i'r polisi ei gefnogi, ac a fwriedir i'r polisi ddarparu'r 'bachyn polisi' angenrheidiol ar gyfer paratoi *Cynlluniau Bro* fel rhan o system y cynllun datblygu.<br>o Adolygu a yw'r polisi'n cydnabod ac yn cefnogi rôl *Cynlluniau Bro* yn ddigonol o fewn y fframwaith cynllunio ehangach, gan gynnwys eu swyddogaeth o ran hwyluso mentrau cynllunio dan arweiniad y gymuned.<br>o Ystyried a yw'r gofyniad i gynlluniau o'r fath ddilyn yr egwyddorion uwch-gynllunio a nodir ym Mholisi SP3 yn briodol, yn gyfiawn ac yn gymesur o ystyried diben arfaethedig, graddfa a natur gymunedol *Cynlluniau Bro*.<br>- Mae Pwynt Gweithredu HS6.3 yn ymwneud â sut a ble y gall y Cyngor, yn y CDLIN, fynegi ei gefnogaeth i gyfranogiad cymunedol a chreu lleoedd ar gamau uwch-gynllunio a datblygu safle Llaneirwg yn y dyfodol. Yn ei adolygiad o SP3, SP4 a SP7, dylai'r Cyngor ystyried a ddylid gwneud ymrwymiad tebyg i gyfranogiad cymunedol yn gyffredinol ac i baratoi Cynlluniau Bro lle bo hynny'n briodol. | |
| **Monitro** | **Cam Gweithredu** | **Erbyn** |
| HS15.1 | i. Y Cyngor i ddileu 'neu fwy' o bob dangosydd sy'n dweud 2 flynedd neu fwy yn olynol.<br>ii. Y Cyngor i greu dangosydd newydd, gan wahanu darpariaeth tai fforddiadwy oddi wrth ddarpariaeth tai'r farchnad.<br>iii. Y Cyngor i greu dangosydd newydd sy'n monitro rhaniad deiliadaeth (rhent cymdeithasol a chanolradd).<br>iv. Y Cyngor i greu dangosydd newydd sy'n monitro cyflawni yn erbyn trothwyon tai fforddiadwy a | 30/9/26 |

| | | |
|---|---|---|
| | thargedau canrannol ar gyfer safleoedd tir glas a thir llwyd.<br>v. Y Cyngor i greu dangosydd newydd sy'n monitro cyflawniad Parc Caerdydd (dyraniad EC2 blaenorol).<br>vi. Y Cyngor i ddiwygio'r sbardun i 1.8, cyfeirio at EC3 ac EC5 ac ystyried cynnwys dangosydd sy'n ymwneud â maint y safle.<br>vii. Y Cyngor i adolygu addasrwydd defnyddio lefelau cyfartalog tai gwag yn y DU (2.3).<br>viii. Y Cyngor i ddiwygio 2.4 i gyfeirio at Bolisi R6.<br>ix. Y Cyngor i adolygu a oes angen cynnwys dangosydd ar gyfer Polisi PC1 ac, os felly, perthnasedd ARhAAau fel mesur o berfformiad Polisi PC1 (2.7).<br>x. 2.8, i'w ddileu.<br>xi. Y Cyngor i ystyried sbardun i fonitro capasiti gwastraff (2.9).<br>xii. Y Cyngor i adolygu 2.15 i gysylltu â'r Cynllun Seilwaith.<br>xiii. Y Cyngor i ystyried a oes angen monitro 3.1 i 3.4.<br>xiv. Y Cyngor i adolygu'r targed a'r sbardun ar gyfer 3.6 i sicrhau eu bod yn cyfateb.<br>xv. Y Cyngor i egluro dros ba ardal y mae'r 2.43ha fesul 1000 o'r boblogaeth yn cael ei fesur a chynnwys hynny yn y targed/sbardun.<br>xvi. Y Cyngor i adolygu a oes angen monitro 3.10 a 3.11. | |
| **Cynllun cyfan** | **Cam Gweithredu** | **Erbyn** |
| HS0.1 | Y Cyngor i gynnal adolygiad o'r holl eiriad polisi i brofi cymhwysiad polisïau unigol i gynigion posibl. Dylai'r adolygiad dynnu ar ddiwygiadau a awgrymwyd hyd yma, gan gynnwys ar bolisïau manwerthu a chyflogaeth, a dylai ystyried y canlynol:-<br><br>- Pa mor addas yw defnyddio 'a/neu'<br>- Cryfhau'r geiriad gweithredol ('dim ond lle y caniateir' yn hytrach na 'bydd yn cael ei ffafrio').<br>- Yr hierarchaeth a'r pwysoli rhwng gwahanol feini prawf<br>- Y berthynas rhwng gwahanol feini prawf mewn proses gwneud penderfyniadau<br>- Defnyddio ymadroddion fel 'disgwyliedig', nad yw'n ofyniad<br>- Defnyddio ymadroddion fel 'lle bo'n berthnasol', nad yw'n fanwl<br>- Defnyddio ymadroddion fel 'lle bo'n briodol', a all fod yn oddrychol os nad ydynt wedi'u diffinio'n glir | 30/9/26 |

| | | |
|---|---|---|
| | - Defnyddio ymadroddion fel 'disgwylir helpu i', nad yw'n gosod digon o bwysau<br><br>Nid yw'r uchod yn cael eu nodi'n rheolau cyffredinol ac nid ydynt yn gynhwysfawr. Gallant fod yn briodol mewn rhai amgylchiadau. | |
| HS0.2 | Y Cyngor i greu a chynnal tabl o **NMCau** sy'n deillio o'r Gwrandawiadau a'r newidiadau arfaethedig a nodir yn CD05, Ymateb y Cyngor i Sylwadau a Chwestiynau a godwyd gan yr Arolygwyr ar ID04. | Parhaus |